Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PANEL YMGYNGHOROL STRATEGAETH COETIR
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAI 2007
YN
EGLWYS GYMUNEDOL HOPE, Y DRENEWYDD

Yn Bresennol:
Roger Cooper, Cadeirydd
Dr Alun Gee
Hilary Miller
Tim Kirk
Dr Tim Stowe
Celia Thomas
Gareth Price
Yr Athro Colin Price
Bernard Llewelyn
David Jenkins
Bob Vaughan
David Hughes
Dr John Edington
Nigel Ajax-Lewis
Rory Francis
Sue Gittins
Chris Inglis

Y Pwyllgor Cenedlaethol:
Judith Webb
Jon Owen Jones
Trefor Owen

Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
Clive Thomas
Mike Pitcher
Paul Finch
Jane Holloway
Debbie Westlake (Ysgrifennydd Cofnodion)

Ymddiheuriadau:
John Lloyd Jones
Philippe Morgan
Hugh Brodie
Ian Forshaw
Chris Edwards
Paul Sherrington
Helena Fox
Alex Brownlie
Geraint George

EITEM 1
CROESO A CHYFLWYNIADAU

1. Croesawodd Roger Cooper, y Cadeirydd y Panel i'r cyfarfod. Nod y cyfarfod hwn oedd cwblhau eu cyfraniad i'r adolygiad o'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru. Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad o'r hyn y bu'n ei wneud ers y cyfarfod diwethaf. Gwnaed cofnod o'r ymddiheuriadau. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Adolygwyd y pwyntiau gweithredu, a chafodd unrhyw eitemau a oedd yn weddill eu cynnwys dan eitem 6 ar yr agenda.

EITEM 2
TREFN Y DYDD – STRATEGAETH COETIROEDD I GYMRU: ADOLYGU'R DDOGFEN WELEDIGAETH

2. Dywedodd y Cadeirydd mai'r nod ar gyfer y dydd oedd cael cefnogaeth y Panel i'r strategaeth coetiroedd drafft fel y gellid ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cenedlaethol ac i'r Gweinidog wedi hynny. Bwriedid treulio'r rhan fwyaf o'r cyfarfod yn trafod y Cynllun Gweithredu a'r dangosyddion.

3. Rhoddodd Clive Thomas amlinelliad byr o sut y daeth yr adolygiad i fod, a dywedodd y byddai'r adran berthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru (Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad) yn gyfrifol am y strategaeth cyn gynted ag y byddai wedi cael sêl bendith y Gweinidog. Rôl y Panel felly oedd cwblhau'r adolygiad. Caiff y strategaeth ei lansio yn ystod haf 2007 os bydd amser yn caniatáu, ac erbyn mis Medi gobeithir gofyn am gyngor y Panel ar y modd y caiff ei gweithredu.

4. Aeth y Cadeirydd drwy'r Weledigaeth ddalen wrth ddalen. Awgrymwyd nifer o newidiadau. **Awgrymodd Mr Cooper y dylid anfon yr holl newidiadau at Mike Pitcher ar ddiwedd y cyfarfod neu drwy e-bost yn union wedyn.**

5. Gofynnodd y Cadeirydd i'r **Panel a oedd yn cymeradwyo'r Weledigaeth yn ffurfiol, a chafwyd ateb cadarnhaol.**

Y STRATEGAETH

6. Cytunwyd ar strwythur y Strategaeth yn y cyfarfod diwethaf (16 Mawrth 2007), tra'n aros am fân newidiadau terfynol.

7. Cafwyd trafodaeth, **ac awgrymodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno pob newid i Mike Pitcher ar ddiwedd y cyfarfod neu anfon e-bost ato'n union wedyn.**

8. Cytunwyd mai newidiadau bach yn unig a ddisgwylid, a gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel gefnogi'r ddogfen. Cytunwyd yn ffurfiol ar hyn, tra'n aros am rai mân newidiadau a gyflwynid i Mike Pitcher.

EITEM 3
Y CYNLLUN GWEITHREDU

9. Eglurodd Mike Pitcher y fformat a'r cynigion ar gyfer y broses o adolygu'r strategaeth, a dywedodd y byddai'r sesiwn yn canolbwyntio ar y gweithredoedd go

iawn (a ydynt yn briodol?) y chwaraewyr rôl (a oes unrhyw un arall y dylid ei gynnwys?) a'r cerrig milltir (a ydynt yn realistig?)

10. Cafwyd trafodaeth helaeth i ddilyn, a gwnaeth Mr Pitcher gofnod o'r sylwadau. **Gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel ddilyn hyn i fyny gydag ef ar ôl y cyfarfod**.

11. Awgrymodd Tim Kirk, gan fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei enwi fel prif chwaraewr rôl yn nifer o'r gweithredoedd, bod hyn yn gosod disgwyliadau mawr mewn perthynas â rôl CCC, a gofynnodd a oedd yna adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith. Dywedodd Clive Thomas fod CCC eisoes yn arwain ar nifer o'r gweithredoedd, ac y bwriedid datblygu ymateb corfforaethol i'r strategaeth unwaith yr oedd wedi'i chwblhau, ac y dylai'r broses gynllunio gorfforaethol adlewyrchu hyn.

12. **Gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel gefnogi'r cynllun gweithredu, a chytunodd y Panel, yn amodol ar fân newidiadau.**

EITEM 4
Y DANGOSYDDION

13. Dywedodd y Cadeirydd y bwriedid cael y dangosyddion wedi'u cymeradwyo erbyn diwedd y cyfarfod. Fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cenedlaethol cyn gynted ag y byddant wedi cael eu golygu.

14. Eglurodd Mike Pitcher y fformat, a rhoddodd gyflwyniad byr ar y cefndir a arweiniodd at statws presennol yr adolygiad o'r strategaeth. Yn ystod y gweithdy byddai'r Panel yn rhannu'n dri grŵp, a fyddai'n cynrychioli'r themâu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a byddai'r aelodau yn ymuno â'u grŵp diddordeb. Ar ôl iddynt adolygu'r dangosyddion, gofynnwyd i'r aelodau edrych arnynt yn erbyn dwy thema drawsbynciol – newid yn yr hinsawdd a rheoli newid yng nghoetiroedd Cymru.

EITEM 5
CRYNODEB O'R GWEITHDAI

15. Yn y sesiwn grynhoi bu'r hwyluswyr (Paul Finch: economaidd, Mike Pitcher: cymdeithasol, Clive Thomas: amgylcheddol) **yn adolygu casgliadau eu grŵp ac yn eu cyflwyno i'r Panel, cyn eu cyflwyno i Mike Pitcher ar gyfer adolygu'r drafft.**

16. Awgrymodd Dr. Gee **y dylid sefydlu rhyw fath o dystiolaeth neu wybodaeth fan cychwyn** mewn perthynas â'r dangosyddion a gweithredoedd a fyddai'n helpu'r broses o asesu cynnydd, adolygu a gwerthuso ymhen 3 i 5 mlynedd. **Cytunodd Mike Pitcher y byddai hyn yn sylfaen dda ar gyfer mesur ac y byddai'n edrych i mewn i hyn ymhellach.**

17. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel anfon unrhyw sylwadau pellach at Mike Pitcher cyn gynted â phosibl. Yna bydd Mr Pitcher yn golygu ac yn diweddaru'r drafft ac yn ei ddosbarthu i'r Panel iddynt gael cip arno am y tro olaf cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cenedlaethol. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Panel a oeddynt yn fodlon cefnogi'r dangosyddion, a chytunodd y Panel i wneud hyn. Gofynnwyd i aelodau'r Panel a oeddynt yn teimlo eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau fel y'u nodwyd gan y Gweinidog ac a oedd CCC wedi cyflawni ei rwymedigaethau. Cytunodd y Panel eu bod hwy wedi gwneud hyn.

18. Nododd y Cadeirydd fod fformat y Cynllun Gweithredu wedi gwella'n fawr a bod y Panel wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Dywedodd Judith Webb fod arnynt ddyled fawr i Mike Pitcher, a oedd wedi ymdrechu'n galed i sicrhau bod cyfraniad y Panel yn fwy effeithiol. Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol i Mike Pitcher.

EITEM 6
NEWYDDION DIWEDDARAF: CYFLWYNIADAU LLAFAR
TASGLU ST REGIS

19. Cafwyd y newyddion diweddaraf gan Judith Webb ynghylch Tasglu St Regis. Roeddent wedi cytuno y dylid edrych eto ar y casgliadau, ac er bod hyn yn berthnasol nid oedd yn dangos unrhyw gynnydd gwirioneddol. Cynhelir cyfarfod pellach ar 5 Mehefin 2007, ac mae'n bosibl y bydd mwy i'w adrodd yn ôl yn dilyn hyn. Dywedodd David Jenkins fod y darn olaf o waith yn siomedig; mae angen gwneud rhagor o waith gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n mynd i St Regis a beth y mae'n ei gyfrannu i'r sector gwerth ychwanegol, mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

Grŵp Cynghori ar Bolisi Ymwneud Cymunedol / CIPAG: Y DIWEDDARAF

20. Dywedodd Celia Thomas wrth y Panel ei bod wedi mynychu cyfarfod o CCC a'i bod yn falch o weld y cynigion ar gyfer ymwneud cymunedol, eu hamcanion a'r canlyniadau posibl. Y cam nesaf fydd gwneud ymateb ffurfiol i Fwrdd Rheoli CCC a llunio cylch gorchwyl a phenderfynu ar aelodaeth yr is grŵp.

NEWYDDLEN PYSG

21. Rhoddodd Debbie Westlake y newyddion diweddaraf i'r Panel mewn perthynas â'r cynigion i wneud gwell defnydd o dudalennau PYSG ar Wefan CCC. Nid oes gan CCC adnoddau digonol ar hyn o bryd i gynhyrchu newyddlen reolaidd, ond bydd y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am ddigwyddiadau yn cael eu rhoi ar y Wefan a bydd yr holl aelodau (y Panel a'r Bartneriaeth ehangach) yn cael eu hysbysu o unrhyw newid. Bydd y cynnwys yn cael ei fonitro'n llym, a chadarnhawyd y byddai'r Wefan yn cael ei defnyddio'n unig ar gyfer eitemau/digwyddiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Strategaeth Coetir.

COED GREAT TRILEY

22. Ni chafwyd trafodaeth helaeth ar y gwaith hwn gan fod papur a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, gofynnodd Dr Gee sut y bydd yr ymchwil yn cyfrannu at y ddealltwriaeth gyffredinol o'r materion dan sylw, ac awgrymodd y Cadeirydd ei fod yn cysylltu â Hugh Thomas, rheolwr y prosiect, i drafod y mater hwn ymhellach.

ROBINWOOD: Y DIWEDDARAF

23. Cafwyd y newyddion diweddaraf gan Paul Finch mewn perthynas â Robinwood. Gall aelodau'r Panel gysylltu ag ef neu â Kim Burnham, rheolwr y prosiect, os oes ganddynt unrhyw gwestiynau pellach.

SICRHAU GWERTH YCHWANEGOL AR GYFER COED YN EWROP/GATE

24. Dywedodd Paul Finch wrth y Panel fod y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwahoddiadau i'r gynhadledd bellach wedi mynd heibio. Bydd tuag ugain o bobl yn mynychu'r gynhadledd, a bydd dau o aelodau'r Panel yn eu mysg, sef David Jenkins a Celia Thomas. Gofynnwyd i'r Panel wneud cofnod o'r dyddiad 4 Hydref 2007, sef dyddiad olaf cynhadledd GATE, a gynhelir yng Nghaerdydd.

EITEM 7
UNRHYW FATER ARALL

25. Bu David Jenkins yn disgrifio'r prosiect Tŷ Unnos. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac WKW wedi ariannu tîm sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ysgol Bensaernïaeth Cymru, Prifysgol Bangor a Choed Cymru i wneud ymchwil i'r posibilrwydd o gynhyrchu tai fforddiadwy gan ddefnyddio pyrwydd brodorol. Nid yw systemau ffrâm goed cyfoes yn briodol. Mae'r prosiect wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r briff gwreiddiol ac wedi cynnig system adeiladu gyflawn sy'n seiliedig ar ddefnyddio trawstiau blwch fel cydrannau fframiau porth. Mae'r dadansoddiad peirianegol trylwyr a wnaed o'r system wedi'i gwblhau ac mae'n edrych yn addawol. Mae'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi. Mae'r prosiect yn awr yn ceisio cael arian er mwyn symud ymlaen i gynhyrchu'r trawstiau blwch ac i ariannu ymchwil PhD yn Ysgol Bensaernïaeth Cymru.

http://www.coedcymru.org.uk/tyunnos.htm

26. Bu Celia Thomas yn sôn wrth y Panel am 'Natur', sef Sefydliad Rheoli Cefn Gwlad a Chadwraeth Cymru. Prif amcan Natur yw cyfrannu tuag at ddarparu a chynnal gweithlu proffesiynol medrus gyda chymhelliant uchel i Gymru, sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i reoli amgylchedd byw Cymru o dir a môr.

EITEM 8
Y CYFARFOD NESAF – LLEOLIAD, DYDDIAD A CHYNNWYS

27. Cytunwyd ar y dyddiad 12 a 13 Medi. Byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal rywle yn Ne Cymru, gan ddibynnu ar y pynciau i'w trafod. Awgrymodd Clive Thomas y gallai'r cyfarfodydd dilynol ganolbwyntio ar ddwy thema ar bymtheg y strategaeth coetir. Gellid dewis un neu ddwy o eitemau i'w trafod, a threfnu taith faes berthnasol. Byddai hyn yn darparu canolbwynt ar gyfer monitro man cychwyn yn y dyfodol.

28. Rhai o'r awgrymiadau eraill oedd y strategaeth biomas a nodi gweithredoedd blaenoriaethol er mwyn adolygu datblygiad y farchnad tanwydd coed. Ymchwil i Newid Defnydd Tir Coedwigaeth. Awgrymiadau o gyfarfodydd blaenorol. (Atgoffodd David Jenkins y Cadeirydd fod awgrymiadau wedi cael eu cyflwyno beth amser yn ôl). Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn edrych ar y rhain ac yn llunio rhaglen – pe byddai'r Panel yn cytuno bod hyn yn ymagwedd briodol. Cytunwyd ar hyn.

GWEITHREDU: **Yr Ysgrifenyddiaeth i lunio rhaglen o'r cyfarfodydd i ddod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20pm.